Y blaidd a'r oen

Dysgu Gwrando / Dod i benderfyniad

Pan oedd y blaidd yn yfed o'r afon gwelodd oen bychan llond ei groen yn prancio i lawr y bryn. Daeth i lawr at ymyl y dŵr a dechrau yfed ymhellach i lawr yr afon.
"Bore da, a dyma fy mrecwast," meddai'r blaidd gan lyfu ei weflau.
"Beth, wyt ti am fy mwyta," gofynnodd yr oen bach yn betrus.
"Yn sicr i ti," meddai'r blaidd gan agor ei geg a dangos ei ddannedd miniog.
"Plis! paid," plediodd yr oen. "Dydw i ddim wedi gwneud drwg i ti o gwbl."
"Drwg?" meddai'r blaidd. "Beth am y gaeaf diwethaf pan oeddet ti'n cuddio tu ôl i'r gwrych ac yn gweiddi. "Pwy sydd ofn y blaidd mawr tew?"
Ond doeddwn i ddim wedi cael fy ngeni y gaeaf diwethaf. Dim ond mis oed ydw i," meddai'r oen bach.
"Dy frawd oedd o felly. Roedd o'n union fel ti, dwy glust, pedair coes a chot o wlân." meddai'r blaidd.
"Ond does gen i ddim brawd. Y fi ydi'r oen cyntaf i gael ei eni. Dydw i ddim wedi gwneud drwg i ti o gwbl."
Meddyliodd y blaidd am funud. "Beth am y munud yma? Rwyt ti wedi yfed y dŵr o'r un afon ac rydw i wedi yfed. Mae dy hen geg fudr di wedi bod yn y dŵr."
"Ond," meddai'r oen bach. "Yfed i lawr yr afon oeddwn i. Roedd y dŵr o gwmpas fy ngheg yn llifo i lawr yr afon ac nid i fyny atat ti."
"Beth bynnag, mi ydw i am dy fwyta" meddai'r blaidd.
"Pam? Rho un rheswm da i mi," meddai'r oen bach.
"Wel, wythnos diwethaf mi wnes di ddifrod i nghartref i. Roeddet ti'n prancio ar y borfa uwchben fy ffau a dyna'r tir yn dymchwel i mewn i'r ffau. Roedd fel daeargryn mawr."
"Dwyt ti ddim yn credu fod hynna'n wir? Y fi, oen bach ysgafn yn prancio ar y borfa a'r tir yn disgyn oddi tanaf."

"Wrth gwrs fod hynny'n wir," meddai'r blaidd. Rhuthrodd tuag at yr oen bach ac ymosod arno'n ddidrugaredd.
Pan glywodd y dylluan ddoeth am hyn galwodd holl anifeiliaid y fro at ei gilydd.
"Rydw i eisiau i chi wrando'n astud iawn," meddai, "doedd y blaidd drwg ddim yn credu dim a ddywedodd wrth yr oen bach. Doedd o ddim am wrando ar yr oen bach. Roedd y blaidd wedi gwneud ei feddwl i fyny ei fod am fwyta'r oen bach. Doedd dim byd yn mynd i newid ei feddwl o gwbl. Roedd yn benderfynol o fwyta'r oen bach." Meddyliodd y dylluan ddoeth unwaith eto ac meddai, "Cyn i chi wneud drwg i neb meddyliwch chi'n galed yn gyntaf a byddwch yn barod i wrando."
Aeth yr anifeiliaid i ffwrdd i feddwl am yr hyn ddywedodd y dylluan ddoeth.

O Dduw, gwna fi'n fwy parod i wrando. Amen.

- Sut anifail oedd y blaidd yn y stori?
- Petai chi'n oen bach beth fuasech chi wedi'i wneud?